

## Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

### Rhifyn 3

<b>Darn</b>	<b>Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:</b>
<b>Pa ffordd? Pa wlad?</b>	<b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau</li> </ul>
<b>Bwyd blasus</b>	<b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>paratoi bwyd, datblygu rysâit a thrafod bwyta'n iach</li> </ul>
<b>Sut i chwarae'n dda</b>	<b>Addysg gorfforol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>rhoi cynnig ar wahanol weithgareddau sy'n effeithio ar eu ffitrwydd a chael gwybod sut y gall hyfforddiant priodol wella ffitrwydd a pherfformiad</li> </ul>
<b>Bore Llun</b>	<b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>trafod bwyta'n iach</li> </ul>
<b>Beth ydych chi'n fwyta?</b>	<b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>dehongli gwybodaeth o ystadegau</li> <li>defnyddio holiadur i gasglu gwybodaeth</li> <li>creu graff</li> </ul> <b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>trafod bwyta'n iach</li> </ul>
<b>Rasio gwahanol</b>	<b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau</li> </ul> <b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>meddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynhyrchu syniadau ar gyfer eu cynhyrchion</li> <li>datblygu manyleb ar gyfer eu gwaith</li> <li>archwilio, datblygu a chyfleu'u syniadau dylunio mewn ystod o ffyrdd</li> </ul> <b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau</li> </ul>
<b>Beth wyt ti'n goginio?</b>	<b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>paratoi bwyd, datblygu rysâit a thrafod bwyta'n iach</li> </ul>
<b>Wrth y bwrdd</b>	<b>Daearyddiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau</li> </ul>

Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

### **Datblygu meddwl**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

### **Datblygu cyfathrebu**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

### **Datblygu TGCh**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

### **Datblygu rhif**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- gosod digwyddiadau mewn trefn amser
- defnyddio mesur (wrth greu ryseitiau o bosib)
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys holiaduron
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

**Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7**